NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Uwchsain penodol trawsgroenol dwysedd uchel a gaiff ei lywio gan uwchsain ar gyfer ffibroidau crothol symptomatig

24 Gorffennaf 2019

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio ar gyfer ffibroidau crothol symptomatig. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny oherwydd y pryderon ynghylch pa mor dda mae'n gweithio yn yr hirdymor a'r cymhlethdodau difrifol.

Mae ffibroidau crothol yn dyfiannau nad ydynt yn ganseraidd ar y tu mewn neu'r tu allan i'r groth. Yn ystod y driniaeth hon, mae dyfais yn sganio'r groth i ddangos ble mae'r ffibroidau. Mae dyfais ar wahân yn rhoi dos penodol o ynni uwchsain dwysedd uchel drwy groen yr abdomen (trawsgroenol). Mae hyn yn cynhesu'r ffibroid nes i'r rhan fwyaf neu'r cyfan ohono gael ei ddinistrio, gan leihau'r symptomau a achosir gan y ffibroidau.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau â chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-7984-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.